RUTH PARMITER WAS BORN IN ESSEX AND RAISED IN KENT. SHE EXPERIENCED ART EDUCATION AT CANTERBURY COLLEGE OF ART, WHERE THE GRAPHIC DESIGN COURSE INCLUDED SOME BASIC PRINTMAKING. SUBSEQUENTLY, SEVERAL YEARS LIVING AND WORKING IN LONDON AS A GRAPHIC DESIGNER WERE FOLLOWED BY A SIDEWAYS SHIFT TO TEACH GRAPHIC DESIGN AND TYPOGRAPHY, FIRST IN LONDON AND LATER IN SWANSEA. WHEN THE INITIATION OF A VISUAL ARTS DEGREE IN SWANSEA NECESSITATED INSTRUCTION IN PRINTMAKING, RUTH VOLUNTEERED.

She has been involved in many exhibitions over the last few years mostly in Wales, with the exception of the Fourth Egyptian Print Triennial, March 2003.

Printmaking has become an increasingly important preoccupation for me, subjected to design rather than fine art scrutiny, and bearing witness to my continuing interest in letterforms and the design and function of typography. Lacking a formal training in printmaking, I use solutions that tend to present themselves through non-standard and mixed media.

This poem is only apparently descriptive. The visual icons are small, implying context, like isolated archipelagos washed in an ocean of non-visual words. Some of these icons - the wordy women, the starred child, the raven in flight - are drawn together, as inhabitants in a wind scoured Cwmndonkin Park. The icons need to be discovered and invite investigation.

Additionally, the scale of the print invites personal retrospection, an individual response concentrated and made small by the distancing of time.

This print is a relief white line image, cut in lino, after the manner of wood engraving using oil based relief ink and printed on a Tofko cylinder press.



GANWYD **RUTH PARMITER** YN SWYDD ESSEX A CHAFODD EI MAGUYN SWYDD CAINT. DERBYNIODD EI HADDYSGYNG NGHOLEG CELF CAERGAIN, AC ROEDDY CWRS DYLUNIO GRAFFIG YN CYNNWYS YCHYDIG O WAITH AR WNEUD PRINTIAU. WEDYN, AR ÔL NIFER O FLYNYDDOEDD O FYW A GWEITHIO YN LLUNDAIN FEL DYLUNYDD GRAFFIG SYMUDODD I ADDYSGU DYLUNIO GRAFFIG AC ARGRAFFWAITH, YN GYNTAF YN LLUNDAIN AC YNA YN ABERTAWE. PAN BENDERFYNWYD Y DYLID CYNNWYS GWNEUD PRINTIAU FEL RHAN O GWRS GRADDY CELFYDDYDAU GWELEDOL, CYNIGIODD RUTH WNEUD Y GWAITH.


Mae wedi bod yn gysylltiedig â nifer o arddangosfeydd dros y blynyddoedd diwethaf yn bennaf yng Nghymru ac eithrio'r Fourth Egyptian Print Triennial, Mawrth 2003.

Mae gwneud printiau wedi dod yn fwyfwy pwysig i fi, yn dibynnu ar dylunio yn hytrach nag archwiliad cain, ac yn tystio i'm diddordeb parhaol mewn ffurfiau llythrennau a dylunio a swyddogaeth argraffwaith. Heb unrhyw hyfforddiant ffurfiol mewn gwneud printiau, rwy'n defnyddio datrysiadau sy'n cynnig eu hunain trwy gyfryngau ansafonol a chymysg.

Mae'n ymddangos mai cerdd ddisgrifiadol yn unig yw hon. Mae'r eiconau gweledol yn fach, gan awgrymu cyd-destun, fel archipelago pellenig yn cael ei olchi mewn geiriau anweledol. Mae rhai o'r eiconau - 'the wordy women', 'the starred child', 'the raven in flight' - yn cael eu dwyn at ei gilydd fel preswylwyr ym Mharc Cwmndonkin sy'n agored i'r gwylt. Mae'n rhaid darganfod yr eiconau a'u hymchwilio.

Hefyd mae graddfa'r print yn gwahodd ôl-dremio personol, ymateb unigol yn canolbwyntio ac yn lleihau gyda threigl amser.

Mae'r print yma'n ddelwedd gerfwedd llinell wen, torlun leino, yn null ysgythru pren gan ddefnyddio inc cerfwedd olew ac wedi'i brintio ar wasg silindr Tofko.



A/P

Rulltammity

JUDITH STROUD'S EARLY YEARS WERE SPENT IN ENGLAND AND AFRICA. AFTER GRADUATING IN FINE ART, SHE MOVED TO SWANSEA, PUTTING DOWN PERMANENT ROOTS. MANY YEARS OF TEACHING ART HELPED INFORM AND INSPIRE WIDE-RANGING IDEAS FOR HER OWN WORK, WHICH IS NOW A FULL TIME OCCUPATION. RETURNING TO A LONGSTANDING INTEREST IN PRINTMAKING, SHE HAS RECENTLY FOCUSED PARTICULARLY ON INTAGLIO PROCESSES.

A passion for the natural environment, in particular that of Swansea and Gower, is the inspiration for her work. The natural materials which are often used to make her prints give them delicate detail and strength, which mirrors the contrasting fragility yet powerful forces of nature.

Thomas' delight in nature, and his approach of linking it with both the processes of writing and of the body, is particularly interesting. The gothic outline of my print combines the knobby shapes of pollarded plane trees, a familiar sight in Swansea in autumn, with other tree shapes, sculpted and dwarfed by time, the weather, or the hand of man. These are nature's signs, like hands, fists, fingers, knuckles, gestures, making 'wordy shapes' and echoing Thomas' ambiguity.



The organic form grows from the base, symbolising some sort of life-force. The whole image can be read in many different ways. As in Thomas' poetry, meaning seems to shift and slide about.

The freeform shape of my etching plate was created by rolling on a hard ground, drawing the shape through it, and immersing in ferric chloride for twenty four hours or more. I then laid a soft ground on the copper plate and impressed this with natural textures, such as seaweed and dried grasses. I also used some of my recent experimental collagraph boards, which had the materials already fastened to them. This made it easier to control the results. After biting, the process was repeated several times, whilst stopping out different bits of the plate. I have used no drawing as such, but where differences in tone were needed, I have added some aquatint, or scraped and burnished the plate.

TREULIODD **JUDITH STROUD** EI BLYNYDDOEDD CYNNAR YN LLOEGR AC AFFRICA. WEDI GRADDIO YN Y CELFYDDYDAU CAIN, SYMUDODD I ABERTAWE, GAN YMGARTREFUYMA. MAE NIFER O FLYNYDDOEDD O ADDYSGU CELF WEDI BOD YN GYMORTH I DRWYTHO AC YSBRYDOLI SYNIADAU EANG AR GYFER EI GWAITH EI HUN, SYDD ERBYN HYN YN WAITH LLAWN AMSER. GAN DDYCHWELYD AT EI DIDDORDEB MEWN GWNEUD PRINTIAU, YN DDIWEDDAR MAE WEDI CANOLBWyNTIO AR Y PROSES AU INTAGLIO.

Cariad at yr amgylchedd naturiol, yn enwedig Abertawe a Gŵyr yw'r ysbrydoliaeth i'w gwaith. Mae'r deunyddiau naturiol a ddefnyddir yn aml yn ei phrintiau yn rhoi manylion cain a chryfder, sy'n adlewyrchu breuder a grym pwerus natur.

Mae hoffter Thomas o natur, a'i agwedd o'i gysylltu â phrosesau ysgrifennu a'r corff, yn arbennig o ddiddorol. Mae amlinelliad gothig fy mhrint yn cyfuno siapiau ceinciog coed moel, golygfa gyfarwydd yn Abertawe yn yr hydref, gyda siapiau coed eraill, wedi'u cerflunio a'u corachu gan amser, y tywydd neu law dyn. Dyma arwyddion natur, fel dwylo, dyrnau, bysedd, migyrnau, ystumiau, yn creu 'siapiau geiriol' ac yn ategu amwysedd Thomas.

Mae'r ffurf organig yn tyfu o'r gwaelod, gan symboleiddio rhyw fath o rym bywydol. Gellir dehongli'r ddelwedd o sawl safbwynt. Fel ym marddoniaeth Thomas mae ystyr yn symud a llithro o un man i'r llall.

Crewyd siâp ffurf rhydd fy mhlât ysgythru trwy ei rollo ar rwnd caled, a thynnu llun drwyddo. Yna trochi'r plât mewn clorid fferig am bedair awr ar hugain neu fwy. Yna rhoddais rwnd meddal ar y plât copr ac argraffu hwn ag ansoddau naturiol fel gwymon a glaswellt sych. Defnyddiais hefyd rai o'm byrddau colograff arbrofol diweddar, gyda'r deunyddiau eisoes ynghlwm wrthynt. Roedd hyn yn ei gwneud yn haws rheoli'r canlyniadau. Ar ôl y cnoad roedd y broses yn cael ei haildrodd sawl gwaith, tra'n gorchuddio gwahanol rannau'r plât. Dw i ddim wedi defnyddio unrhyw luniad fel y cyfryw, rwyf wedi ychwanegu ychydig o acwatint, neu wedi crafu a bwrneisio'r plât.



A/P

Verdith Brand

CERI THOMAS IS A SWANSEA-BASED ARTIST AND ART HISTORIAN WHO STUDIED ART, ART HISTORY AND ITALIAN AT UNIVERSITY COLLEGE LONDON, THE UNIVERSITY OF WALES, ABERYSTWYTH AND THE ACCADEMIA DI BELLE ARTI IN FLORENCE. FOR ONE YEAR HE LIVED IN DYLAN THOMAS' CWMDONKIN DRIVE HOME.

This led to art works inspired by its original front pavement and exhibited at Swansea's Glynn Vivian Art Gallery and the National Museum and Gallery Cardiff. In 2002, he was elected to the Welsh Group. He writes on the art and artists of modern Wales, most recently a chapter in the History of Swansea School of Art (1853–2003).

I have focused on the linked but opposing motifs of the dark raven and the crabbing sun. My aim was to create an image of abstracted, symbolic realism.

Particular words and phrases were selected and interpreted from Thomas' poem. Looking south over the sea from Swansea, an "October wind" would probably be an easterly one and therefore my composition needed to lead the eye mainly from left to right. I then combined his imagery of "the dark-vowelled birds" and "a shadow crab" to produce a pair of ravens' heads which can also be read as crab claws. En route, I consulted visual references and made numerous small-scale sketches. Many of my drawings were linear in order to establish the overall composition and the relative scale and balance of visual elements.

In the final analysis therefore, Thomas' poem has to drop away and the print has to work as an object in its own right and as an expression of my own ideas and feelings.

The compositional outlines were etched into the plate, followed by various areas and intensities of aquatint. Also, a certain amount of burnishing was applied to the reflection of the low sun and the two birds. Several states of the plate were printed.



MAE **CERI THOMAS** YN ARTIST A HANESYDD CELF O ABERTAWE SYDD WEDI ASTUDIO CELF, HANES CELF AC EIDALEG YNG NGHOLEG Y BRIFYSGOL, LLUNDAIN, COLEG PRIFYSGOL CYMRU ABERYSTWYTH A'R ACCADEMIA DI BELLE ARTI YN FFLORENS. AM FLWYDDYN BU'N BYW YNG NGHARTREF DYLAN THOMAS YNG NGHWMDONKIN DRIVE.

Arweiniodd hyn at weithiau a ysbrydolwyd gan bafin blaen gwreiddiol y tŷ ac sydd wedi'u harddangos yn Oriol Gelf Glynn Vivian a'r Amgueddfa ac Oriol Genedlaethol, Caerdydd. Yn 2002, fe'i etholwyd i'r Grŵp Cymreig. Mae'n ysgrifennu ar gelf ac artistiaid modern Cymru, ac yn fwyaf diweddar pennod ar Hanes Ysgol Gelf Abertawe (1853–2003).

Rwyf wedi canolbwyntio ar y cysylltiad a motiffau gwrthgyferbyniol y gigfran ddu a'r haul crablyd. Fy nod oedd creu delwedd o realiti haniaethol, symbolaidd.

Dewiswyd a dehonglwyd geiriau ac ymadroddion penodol o gerdd Thomas. Wrth edrych i'r de dros y môr o Abertawe byddai'r "October wind" mwy na thebyg yn chwythu o'r dwyrain ac felly roedd rhaid i'm cyfansoddiad arwain y llygad yn bennaf o'r chwith i'r dde. Yna cyfunais ei ddelwedd o'r "dark-vowelled birds" a'r "shadow crab" i gynhyrchu pâr o bennau cigfran y gellir eu dehongli hefyd fel crafangau cranc. Yn ystod y broses edrychais ar nifer o gyfeiriadau gweledol gan gynhyrchu llu o frasluniau ar raddfa fach. Roedd nifer o'r lluniadau'n llinol er mwyn penderfynu ar y cyfansoddiad cyffredinol a graddfa berthynol a chydbwysedd yr elfennau gweledol. Yn y dadansoddiad terfynol felly, mae'n rhaid i gerdd Thomas ddisgyn a'r print weithio fel gwrthrych ohono'i hun a mynegiant o'm syniadau a'm teimladau fy hunan.

Ysgythrwyd amlinelliaid y cyfansoddiad ar y plât, a'i ddilyn gan ardaloedd ac arddwysedd amrywiol o acwatint. Hefyd rhoddwyd ychydig o fwrnais i adlewyrchu'r haul isel a'r ddau aderyn. Printiwyd amryw gamau'r plât.



A/P



PETER VISSCHER WAS BORN AND EDUCATED IN THE NETHERLANDS, AND DEVELOPED AN INTEREST IN PRINTMAKING AT THE ACADEMY OF FINE ARTS IN ARNHEM. HE MOVED TO THE UK IN THE EARLY SEVENTIES AND LIVED IN LONDON UNTIL 1992. HE ATTENDED PRINTMAKING COURSES AT CENTRAL ST MARTINS COLLEGE OF ART AND DESIGN, LONDON AND CONCENTRATED ON MULTI-PLATE COLOUR ETCHING. AFTER WORKING FOR MANY YEARS AS AN ILLUSTRATOR HE IS NOW EMPLOYED AS TECHNICIAN AT THE SWANSEA PRINT WORKSHOP.

While October has resonance as the month of my birth, references to Swansea had no special relevance, for I had not lived here for any length of time. Of course the poetry has meaning beyond local links and I bought the Collected Poems in 1972 when still in the Netherlands.

When in Margam Park one November evening, with the last light and drawn out shadows on the ground, I crouched down to pick up a leaf and remembered the poem, its shifting interpretations and layers of meaning. I imagined Thomas like this when describing the 'meadow's signs' and 'signal grass'. The print places the viewer in this position while the hand holding a blade of grass hints at the act of writing.

I wanted to emphasise low light and long shadows to bring a great deal of chiaroscuro into the print. My design closed in on the central part of the first roughs. Original elements combined into a more stark, graphic image, with an impression of wind and movement, while retaining the mood of a last hour of daylight. I used a rather loose, sketchy style of drawing, quite fluid, merely noting down what could be grasses and wind, without wishing to define these further.

There were influences from working in the studio at Clarence Street, from tests with soft ground and aquatints, and from many conversations.

Soft ground etching on copper, bitten in weak Ferric Chloride. Airbrushed acrylic 'aquatint'; some scraping and burnishing.



GANWYD A DERBYNIODD **PETER VISSCHER** EI ADDYSG YN YR ISELDIROEDD, A DATBLYGODD DDIDDORDEB MEWN GWNEUD PRINTIAU YN ACADEMI'R CELFYDDYDAU CAIN YN ARNHEM. SYMUDODD I'R D.U. YN GYNNAR YN Y SAITHDEGAU A BU'N BYWYN LLUNDAIN TAN 1992. BU'N MYNYCHU CYRSIAU GWNEUD PRINTIAU YNG NGHOLEG CANOLOG CELF A DYLUNIO ST MARTINS, LLUNDAIN, GAN GANOLBWYNTIO AR YSGYTHRU PLÂT AML-LIW. AR ÔL GWEITHIO AM NIFER O FLYNYDDOEDD FEL DARLUNYDD MAE NAWR YN GWEITHIO FEL TECHNEGydd GWEITHDY ARGRAFFU ABERTAWE.

Roedd mis Hydref yn dwyn atgofion fel mis fy ngeni, ond nid oedd unrhyw anwyddocâd penodol i'r cyfeiriadau at Abertawe oherwydd nid wyf wedi byw yma'n hir. Wrth gwrs mae gan y farddoniaeth ystyr y tu hwnt i gysylltiadau lleol a phrynais gopi o Collected Poems yn 1972 pan oeddwn yn byw yn yr Iseldiroedd.

Ym Mharc Margam un noson ym mis Tachwedd, gyda'r golau'n diflannu a'r cysgodion yn hir ar y ddaear, plygais i godi deilen a chofiais y gerdd, ei dehongliad symudol a'i haenau o ystyron. Dychmygais Thomas fel hyn pan oedd yn disgrifio 'meadow's signs' a 'signal grass'.

Mae'r print yn rhoi'r gwylwr yn y sefyllfa yma tra bod y llaw sy'n dal glaswelltyn yn awgrymu'r broses ysgrifennu.

Roeddwn eisiau pwysleisio golau isel a chysgodion hir i ddwyn llawer o 'chiaroscuro' i'r print. Canolbwyntiodd fy nyluniad ar ran ganolog y brasluniau cyntaf. Cyfunwyd yr elfennau gwreiddiol i lunio delwedd fwy noethlwm, gafaelgar, gydag awgrym o wynt a symudiad, tra'n cadw awyrgylch oriau olaf golau dydd. Defnyddiais arddull luniadu weddol rydd a llac, gan nodi'n unig yr hyn a allai fod yn laswellt a gwynt, heb ddywmuno diffinio'r rhain ymhellach.

Cafodd gweithio yn y stiwdio yn Stryd Clarence ddylanwad ar fy ngwaith, yn ogystal ag arbrofi gyda grwnd meddal ac acwatint, a nifer o sgysiau.

Ysgythru grwnd meddal ar gopr, wedi'i drochi mewn Clorid Fferic gwan. 'Acwatint' acrylig wedi'i aerfrwsio; ychydig o grafu a bwrneisio.



4/4

سید علی حسینی

ALAN WILLIAMS WAS BORN IN SWANSEA. HE TRAINED IN SWANSEA AND GRADUATED WITH AN HONOURS DEGREE IN GRAPHIC ART, SPECIALISING IN PRINTMAKING.

In 1998 he co-founded the Swansea Print Workshop and is currently involved in the Workshop's outreach project. He also lectures part-time in printmaking.

The element that interested me most in this poem is Thomas' concern with the creative process. Amongst other things, the poem addresses the act of writing poetry and the struggle that it entails. The ambiguity and multiple meanings found in the poem encouraged an approach that echoed these varying elements.

The image deals with Thomas' 'internal landscape'. The foreground figure observes himself looking through a veil of words at the external world. The monumental figures, after Picasso, suggest both the 'star-gestured children' and the 'wordy shapes of women'.

In many ways etching and working with a copper plate is analogous to the writer's struggle, elements may be considered and then dispensed with, emphases shift and new meanings are uncovered as the work gradually moves forward towards a resolution.

During the etching, scraping and burnishing of the plate, marks and textures appear and disappear, elements of the image come and go. It is a fluid, evolutionary process engineered with acid, aquatint, scraper, burnisher and etching needle.



GANWYD **ALAN WILLIAMS** YN ABERTAWE. CAFODD EI HYFFORDDIANT YN ABERTAWE GAN ENNILL GRADD ANRHYDEDD MEWN CELF GRAFFIG, YN ARBENIGO MEWN GWNEUD PRINTIAU.


Yn 1998 roedd yn gyd-sylfaenydd Gweithdy Argraffu Abertawe ac ar hyn o bryd mae'n gweithio ar brosiect allgymorth y Gweithdy. Mae hefyd yn darlithio ar wneud printiau.

Yr elfen sydd o ddiddordeb pennaf i fi yn y gerdd yma yw perthynas Thomas â'r broses greu. Ymhlith pethau eraill mae'r gerdd yn ymwneud ag ysgrifennu barddoniaeth a'r ymdrech sydd ynghlwm wrth hyn. Mae'r amwysedd a'r ystyron lluosog a geir yn y gerdd wedi annog agwedd sy'n adlewyrchu'r elfennau amrywiol yma.

Mae'r ddelwedd yn ymwneud â 'thirlun mewnl' Thomas. Mae'r ffigur ym mlaen y llun yn gweld ei hun yn edrych drwy len o eiriau i'r byd allanol. Mae'r ffigurau cofebol, yn null Picasso, yn awgrymu'r 'star-gestured children' a'r 'wordy shapes of women'.

Mewn sawl ffordd mae ysgythru a gweithio gyda phlât copr yn ddigon tebyg i ymdrech y bardd, efallai y byddir yn ystyried elfennau ac yna'n eu hepgor, gyda'r pwyslais yn newid ac ystyron newydd yn dod i'r amlwg wrth i'r gwaith symud ymlaen at y diwedd gorffenedig.

Yn ystod ysgythru, crafu a bwrneisio'r plât, bydd marciau ac ansoddau'n ymddangos ac yn diflannu, elfennau'r ddelwedd yn mynd a dod. Mae'n broses gyfnewidiol, esblygol a saerniwyd ag asid, acwatint, crafwr, bwrneisiwr a nodwydd ysgythru.



99

Alan S. Harris

TWELVE PRINTMAKERS FROM SWANSEA PRINT WORKSHOP AGREED TO COLLABORATE IN A PROJECT TO MARK THE 50TH ANNIVERSARY OF DYLAN THOMAS'S DEATH IN NOVEMBER 1953. EACH ARTIST WOULD ULTIMATELY PRODUCE ONE IMAGE WHICH WOULD BE USED IN A LIMITED EDITION BOXED SET OF TWELVE PRINTS.

THIS PROJECT WAS ABLE TO REALISE ITS FULL POTENTIAL WITH THE AWARDING OF A *PRODUCTION AND AUDIENCE DEVELOPMENT GRANT* FROM THE ARTS COUNCIL OF WALES, AND GOT UNDERWAY IN OCTOBER 2002.

We worked closely with David Woolley at the Dylan Thomas Centre in Swansea, whose support and encouragement was invaluable, particularly in the early stages.

Our remit was for us as artists to re-engage with an aspect of Dylan Thomas' early work from his Swansea period. We felt that the range of our experience, background and ages would produce interesting and diverse results. Our initial meetings included readings and discussions leading towards finding a consensus for a particular approach. At this point Dr Chris Wiggington from Trinity College, Carmarthen, came with Victor Golightly and Dr Richard Chamberlain to give us a finely judged, but informal seminar. While it linked to what some of us were already doing intuitively, this helped us focus more clearly and served as the catalyst for yet more ideas. It was never our intention to provide an illustration in the narrowest sense of the word and this was an enormously useful and exhilarating process.

The Dylan Thomas Festival in Swansea, which runs from October 27th (his date of birth) to November 9th (the date he died) every year, also fed into this process with a rich programme of events, readings, speakers and rare film footage.

CYTUNODD DEUDEG GWNEUTHURWR PRINTIAU O WEITHDY ARGRAFFU ABERTAWA I GYDWEITHIO AR BROSIECT I NODI HANNER CAN MLWYDDIANT MARWOLAETH DYLAN THOMAS YM MIS TACHWEDD 1953. BYDDAI POB ARTIST YN Y PEN DRAW YN CYNHYRCHU UN DDELWEDD A FYDDAI'N RHAN O SET O DDEUDEG PRINT MEWN BOCS.

LLWYDDODD Y PROSIECT YMA GYFLAWNI EI NOD O GANLYNIAD I *GRANT DATBLYGU CYNHYRCHU A CHYNULLEIDFA* GAN GYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU, A DECHREUODD Y PROSIECT YM MIS HYDREF 2002.

Buom yn gweithio'n agos gyda David Woolley o Ganolfan Dylan Thomas, Abertawe, ac roedd ei gefnogaeth a'i anogaeth yn werthfawr dros ben yn enwedig yn y cyfnod cynnar.

Ein cylch gwaith ni fel artistiaid oedd ailgysylltu ag agwedd o waith cynnar Dylan Thomas o'i gyfnod yn Abertawe. Roeddem yn credu y byddai ein profiadau, ein cefndir a'n hoedran amrywiol yn cynhyrchu canlyniadau diddorol a gwahanol. Yn ein cyfarfodydd cynnar buom yn darllen ac yn trafod gwaith Dylan gan arwain at gonsensws ar agwedd benodol. Hefyd daeth Dr Chris Wiggington o Goleg y Drindod Caerfyrddin, gyda Victor Golightly a Dr Richard Chamberlain i gyflwyno seminar anffurfiol o'u barn. Roedd yn cysylltu â'r hyn roedd rhai ohonom eisoes yn ei wneud yn reddfól, ond bu'n fodd i ni ganolbwyntio'n fwy eglur a gweithredu fel catalydd i ragor o syniadau. Nid ein bwriad oedd cynhyrchu lluniau yn ystyr mwyaf cyfyng y gair, a bu hon yn broses ddefnyddiol, llawn asbri.

Bu Gŵyl Dylan Thomas yn Abertawe, a gynhelir o Hydref 27ain (ei ddyddiad geni) i Dachwedd 9fed (dyddiad ei farwolaeth) bob blwyddyn, hefyd yn bwydo i'r broses gyda rhaglen gyfoethog o ddiwyddiadau, darlenniadau, siaradwyr a darnau prin o ffilm.

Our eventual focus became the poem 'Especially when the October wind'. We felt that twelve interpretations of the same text would be more intriguing than twelve individual choices and would lead to a more homogenous collection of prints.

It was apparent throughout the regular meetings up to the end of 2002 that the prints were going to be diverse, not only in imagery but in technical approach. For some artists the project provided an opportunity to develop ways of working which were new to them. This was exciting and interesting and immensely valuable for the general work-practice within the studio and achieved one of the important aims of the project. Those who came to the studio on a regular basis were able to follow each other's progress week by week and benefit from the shared expertise.

Three Artist Proofs from each artist were ready by February 2003, a slight over run on our original timetable.

The actual printing of the hundred in the edition has been done entirely by hand. Some processes are extremely time-consuming and it may be possible to do perhaps ten prints in a day at most. Each print will have been handled at least twenty times from the start of the paper making process to the final signing and boxing of the print.

The Artists Proofs have been framed to form two touring exhibitions and the remaining one will be used as part of a workshop programme.

Following a brief preview at the National Assembly's Wales Week in Brussels in March 2003, and the launch of the prints at the Dylan Thomas Centre in May 2003, there will be four workshops where there will be an opportunity for established and aspiring printmakers to work with some of our artists on a related Dylan Thomas theme. At least one of these workshops will be targeted at young printmakers.

We hope to exhibit the prints from the workshops in early 2004.

Yn y pen draw penderfynwyd canolbwyntio ar y gerdd 'Especially when the October wind'. Roeddem yn teimlo y byddai deuddeg dehongliad o'r un testun yn fwy diddorol na deuddeg dewis unigol a byddai'n arwain at gasgliad mwy cydryw o brintiau.

Yn ein cyfarfodydd rheolaidd hyd at ddiwedd 2002 roedd yn amlwg y byddai'r printiau'n amrywio, nid yn unig o ran delweddau ond hefyd mewn agweddau technegol. I rai artistiaid roedd y prosiect yn gyfle i ddatblygu dulliau gweithio oedd yn newydd iddyn nhw. Roedd hyn yn gyffrous ac yn ddiddorol ac yn werthfawr dros ben i'r arfer gwaith cyffredinol yn y stiwdio gan gyflawni un o nodau pwysicaf y prosiect. Roedd y rhai a ddaeth yn rheolaidd i'r stiwdio bob wythnos yn gallu dilyn cynnydd y lleill ac elwa o rannu arbenigedd.

Roedd tri Proflun gan bob artist yn barod erbyn Chwefror 2003, braidd yn hwyrach na'n hamserlen wreiddiol.

Mae argraffu'r cant yn y cyhoeddiad wedi'i wneud yn gyfan gwbl â llaw. Mae rhai prosesau'n cymryd cryn amser ac efallai mai dim ond rhyw ddeg print y dydd a gynhyrchir. Bydd pob print wedi'i drin o leiaf ugain o weithiau o ddechrau'r broses gwneud papur i'r arwyddo terfynol a gosod y printiau mewn bocsys.

Mae Profluniau'r Artistiaid wedi'u fframio i ffurfio dwy arddangosfa deithiol a bydd yr un sy'n weddill yn cael ei ddefnyddio fel rhan o raglen gweithdy.

Yn dilyn rhagarddangosfa yn wythnos Cymru y Cynulliad Cenedlaethol ym Mrwsel ym Mawrth 2003, a lansio'r printiau yng Nghanolfan Dylan Thomas ym Mai 2003, cynhelir pedwar gweithdy lle bydd cyfle i wneuthurwyr printiau sefydledig a rhai sydd eisiau bod yn wneuthurwyr printiau weithio gyda â rhai o'n hartistiaid i drafod thema arall sy'n gysylltiedig â Dylan Thomas. Bydd o leiaf un o'r gweithdai hyn ar gyfer pobl ifanc.

Gobeithiwn arddangos y printiau o'r gweithdai hyn yn gynnar yn 2004.

ABOUT OUR PAPER

When we embarked on this project we began looking for a single make of paper for the whole edition. One of the first things to decide was the size of the paper we were going to use, for this would have implications for the image each printmaker would produce, which of our presses the edition could be printed on and the dimensions of the edition box. Something near half an 'Imperial' had the right size, at circa 510 x 375 mm, but it quickly became clear that nothing like this could be sourced from our regular suppliers, unless we tore larger sheets to size and so we looked into using a handmade paper, which would also add to the quality we wanted the box-set to have.

An extensive search for a mill in Wales delivered nothing, merely a few references to long-gone papermakers and so we came to work with Wookey Hole Papermill, in Somerset. At one time the mill listed a 'Demy' paper of just the right characteristics, but unfortunately it had stopped making this some time ago and the moulds were sold.

One admittedly expensive possibility was for us to get our own moulds and since there was still one person in the country with the skills to build these we decided to go ahead and commission a pair including one deckle. Ron MacDonald of E. Amies & Son in Kent did the work for us and on Christmas Eve 2002 our moulds arrived, beautiful items in their own right in mahogany, with copper fittings and a phosphor-bronze wire mesh. A few days later these were taken over to the papermill, where Ian Wilcox started producing 1500 sheets early in January. This beautiful white, handmade cotton paper carries the watermarks SPW and GAA, is acid-free and has a weight of about 425 gsm. Each sheet with its four deckle edges tends to vary in a minor way from the others in measurement, finish and weight. Two 'cold-pressed' surface finishes were chosen, one a 'slight glaze' with a somewhat rough texture, while the other is a smoother 'high glaze'. The degree of 'glazing' is the result of the amount of pressure applied to the sheets when passed between two rollers and is controlled by the number of zinc sheets which are interleaved with the paper. In general the high glaze was favored for the silkscreen and relief prints.

GWYBODAETH AM EIN PAPUR

Pan ddechreuon ni ar y prosiect yma roeddem yn edrych am un math o bapur ar gyfer yr holl gyhoeddiad. Un o'r pethau cyntaf i'w benderfynu oedd maint y papur i'w ddefnyddio, oherwydd byddai hyn yn effeithio ar y ddelwedd y byddai pob gwneuthurwr print yn ei chynhyrchu, pa wasg y gellid ei defnyddio i argraffu'r papur a mesuriadau'r blwch golygu. Byddai rhywbeth tua hanner maint 'Imperial' yn addas, h.y. 510 x 375 mm, ond daeth yn amlwg yn fuan na ellid cael y maint yma o'n cyflenwyr rheolaidd, oni bai ein bod yn rhwygo dalennau mwy ac felly roedd rhaid edrych ar bapur a wnaethpwyd â llaw, a fyddai hefyd yn ychwanegu at ansawdd y gyfres.

Buom yn chwilio am felin bapur yng Nghymru ond yn ofer, ni chafwyd ond ychydig gyfeiriadau at wneuthurwyr papur oedd wedi hen ddiplannu ac felly daethom i Felin Bapur Wookey Hole yng Ngwlad yr Haf. Ar un adeg roedd y felin yn gwneud papur 'Demy' gyda'r nodweddion addas ond yn anffodus roedd wedi peidio â chynhyrchu'r papur yma beth amser yn ôl ac roedd y mowldiau wedi'u gwerthu.

Un posibilrwydd drud braidd oedd cynhyrchu ein mowldiau ein hunain a chan fod un person yn y wlad gyda'r sgiliau i wneud y rhain fe wnaethom ni benderfynu comisyntu pâr gan gynnwys un decl. Gwnaeth Ron MacDonald o E. Amies & Son yn Swydd Caint y gwaith i ni ac ar Noswyl Nadolig 2002 cyrhaeddodd ein mowldiau, eitemau hardd eu hunain mewn mahogani gyda ffitiadau copr a rhwyll wifrog ffosfor-efydd. Ychydig ddyddiau'n ddiweddarach aethpwyd â'r rhain i'r Felin Bapur a dechreuodd Ian Wilcox gynhyrchu 1500 dalen yn gynnar ym mis Ionawr. Ceir y dyfrnodau SPW a GAA ar y papur cotwm gwyn hyfryd hwn a wnaed â llaw, nid yw'n cynnwys asid ac mae'n pwyso tua 425 gsm. Mae pob dalen gyda'i phedwar ymyl decl yn tueddu amrywio ryw ychydig mewn maint, gorffeniad a phwysau. Dewiswyd dau orffeniad arwyneb 'oerbresio', un â 'llathr ysgafn' sy'n arw i'w gyffwrdd, a'r llall yn fwy llyfn ac yn 'llathr iawn'. Mae'r graddfa 'llathr' yn dibynnu ar faint o bwysau a roddir ar y dalennau pan ânt drwy ddau roler a rheolir hyn gan nifer y dalennau zinc sy'n cael eu rhyngdalennu â'r papur. Fel arfer defnyddiwyd y llathr uchel ar gyfer sgrîn sidan a phrintiau cerfwedd.

GLOSSARY

AQUATINT - An etching technique that creates areas of tone by applying a fine acrylic spray to the plate before it is bitten in acid. This gives finely textured areas whereby tonal value is dependent on how long the plate has been exposed to the acid.

BLIND EMBOSING - A distinct three dimensional impression created without ink printed into dampened paper.

ETCHING - Incising lines into a metal plate with acid for intaglio printing. The plate is covered with an acid resistant ground through which the artist draws a design, revealing the bare metal beneath. When the plate is immersed in an acid bath these lines will be etched into the plate.

INTAGLIO - Any technique such as etching, aquatint or soft ground in which an image is printed from lines or textures scratched, engraved or etched into a metal plate. The plate is inked up and wiped clean leaving ink in the incised areas that make up the image. During printing the tremendous pressure of the press forces the moistened paper into the parts of the plate holding ink and so the image is transferred.

LINO CUT - A relief print carved into linoleum using the same tools as for a woodcut. The smooth even texture of lino gives a different and more consistent finish than that of woodcut.

OPEN BITE - In an open bite the acid is allowed to etch the plate freely in areas where the metal is left unprotected.

RELIEF PRINT - Any image printed from the raised portions of a cut, etched or cast block. Examples are wood - and linocuts.

SCREEN PRINT - Also known as "silk screen" or "serigraphy", this method of printing uses stencils. Made of paper, stencil film, or photographic emulsion, these are fixed to a screen. Ink is squeezed through the screen's fine mesh onto paper.

GEIRFA

ACWATINT - Techneg ysgythru sy'n creu ardaloedd o arlliw trwy roi ysgeintiad acrylig coeth i'r plât cyn ei drochi mewn asid. Mae hyn yn rhoi ardaloedd ansoddedig cain lle mae'r gwerth arlliw yn dibynnu ar ba hyd y bu'r plât yn yr asid.

BOGLYNWAITH DALL - Argraff tri dimensiwn pendant yn cael ei chreu heb inc ac wedi'i phrintio ar bapur llaith.

YSGYTHRU - Endorri llinellau ar blât metel gydag asid ar gyfer argraffu intaglio. Mae'r plât yn cael ei orchuddio gan rwnd gwrthasid trwy'r hwn y bydd yr artist yn tynnu llun, gan ddatgelu'r metel noeth oddi tano. Pan drochir y plât mewn bath asid bydd y llinellau hyn wedi'u hysgythru ar y plât.

INTAGLIO - Unrhyw dechneg fel ysgythru, acwatint neu rwnd meddal lle bydd delwedd yn cael ei hargraffu o linellau neu ansoddau sydd wedi'u craffu, eu hengraffio neu eu hysgythru ar blât metel. Mae'r plât hwn yn cael ei incio a'i sychu'n lân gan adael inc yn yr ardaloedd doredig sy'n rhan o'r ddelwedd. Yn ystod printio mae pwysau aruthrol y wasg yn gwthio'r papur llaith i rannau'r plât sy'n dal yr inc ac felly mae'r ddelwedd yn cael ei throsglwyddo.

TORLUN LEINO - Print cerfwedd wedi'i gerffio ar linoliwm gan ddefnyddio'r un offer â thorlun pren. Mae ansawdd llyfn y lino yn rhoi gorffeniad gwahanol a mwy cyson na thorlun pren.

CNOAD AGORED - Mewn cnoad agored mae'r asid yn cael llifo'n rhydd ar y plât ar fannau lle mae'r metel yn noeth.

PRINT CERFWEDD - Unrhyw ddelwedd a brintir o rannau wedi'u codi ar floc sydd wedi'i dorri, ei ysgythru neu ei gastio. Mae torlun pren a thorlun leino'n enghreifftiau.

PRINTIO SGRÎN - Gelwir hefyd yn "sgrîn sidan" neu "serigraffiaeth", mae'r dull yma o brintio'n defnyddio stensiliau. Wedi'u gwneud o bapur, ffilm stensil neu emwlsion ffotograffig, mae'r rhain yn cael eu gosod ar sgrîn. Mae inc yn cael ei wasgu ar bapur trwy dyllau mân y sgrîn.

GLOSSARY

SOFT GROUND - An etching technique in which the plate is covered with a malleable ground through which a variety of textured materials can be pressed. This exposes the metal and allows the textures to be etched into the plate. Drawing on a piece of paper on top of the soft ground will also cause the ground to lift. When etched this will resemble a pencil line.

WOODCUT - A relief print usually carved in the plank grain of a piece of wood. It is inked with a roller and printed, either with the press or by hand burnishing.

GEIRFA

GRWND MEDDAL - Techneg ysgythru lle mae'r plât yn cael ei orchuddio gan rwnd hydrin ac mae nifer o ddeunyddiau gwriadog yn cael eu gwasgu drwyddo. Mae hyn yn dinoethi'r metel ac yn gadael i'r deunyddiau gwriadog gael eu hysgythru ar y plât. Bydd tynnu llun ar y grwnd meddal hefyd yn gwneud i'r grwnd godi. Ar ôl ei ysgythru bydd y rhain yn debyg i linellau pensil.

TORLUN PREN - Print cerfwedd wedi'i gerfio fel arfer yn dilyn graen darn o bren. Mae'n cael ei incio gyda rholer a'i brintio naill ai gyda gwasg neu ei fwrneisio â llaw.

